

NOVELLO, IVOR (DAVID IVOR DAVIES cyn 1927; 1893 - 1951), cyfansoddwr, dramodydd, ac actor ar lwyfan a ffilm

Enw: Ivor Novello

Dyddiad geni: 1893

Dyddiad marw: 1951

Partner: Robert Tobias Andrews

Rhiant: Clara Novello Davies

Rhiant: David Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyfansoddwr, dramodydd, ac actor ar lwyfan a ffilm

Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Perfformio

Awdur: Mary Auronwy James

Ganwyd yn 95 Cowbridge Road, Caerdydd, 15 Ionawr 1893, i deulu cerddorol iawn a symudodd yn fuan wedyn i Lwyn-yr-eos, 11 Cathedral Road, Caerdydd, yn unig fab i David Davies, casglwr trethi lleol, a [Clara Novello Davies](#). Mynychodd ysgol Mrs. Soulez gerllaw a chafodd wersi cerdd gan ei fam a (Syr) Herbert Brewer, Caerloyw. Gyda'i lais soprano da enillodd wobrwon mewn eisteddfodau, ac ysgoloriaeth i ysgol Coleg Magdalen, Rhydychen, pan oedd yn 10 oed. Yn fuan daeth yn unawdydd i gôr y coleg ond ni chanodd yn gyhoeddus wedi i'w lais dorri yn 16 oed. Dychwelodd adref i roi gwersi piano a chyfeilio yng nghyngherddau ei fam ond aeth i Lundain ymhen blwyddyn; parhaodd fel cyfeilydd iddi yno a dechrau cyfansoddi baledi. Yn 1913 symudodd i 11 Aldwych ac yno y cartrefodd weddill ei oes, er fod ganddo ail gartref yn Downley, Bucks., a phrynodd Redroofs, ger Maidenhead, yn ddiweddarach. Bu farw yn ddisymwth, 6 Mawrth 1951, yn fab gweddwr ar frig ei yrfa.

Treuliodd ei oes ymron i gyd mewn awyrgylch gerddorol. Gweithiai'n ddi-baid, yn perfformio mewn ffilmiau neu ddramâu - llawer ohonynt o'i waith ei hun - weithiau'n ffilmio yn ystod y dydd, ar lwyfan yn yr hwyr, a threulio pob munud rydd yn ysgrifennu a chyfansoddi gweithiau newydd, bron pob un yn fwy disglair na'r rhai a'i blaenorodd. Nid oedd ond pymtheg oed pan, o dan yr enw Ivor Novello, y cyhoeddwyd ei gân gyntaf, 'Spring of the year'. Yn un ar hugain oed daeth yn enwog fel cyfansoddwr 'Keep the home fires burning' i eiriau Lena Guilbert Ford. Ysgrifennodd a chyfansoddodd tua 60 o faledi a chaneuon, 'We'll gather lilacs' yn eu plith. Ymunodd â llw awyr y llynges yn 1916 ond methodd fel peilot a throsglwyddwyd ef i'r Weinyddiaeth Awyr. Yn y cyfamser cyfansoddodd gerddoriaeth i'r sioe *Theodore & Co*. Anfonwyd ef ar daith lwyddiannus i Sweden yn 1918 fel difyrrwr i wrth-wneud effaith propaganda Almaenig yn y wlad honno. Wedi ei ryddhau yn 1919 cymerodd y brif ran mewn ffilm Llundainig, *The Call of Blood*; wedi hynny enwogodd ei hun fel prif actor mewn tuag 16 o ffilmiau ym Mhrydain a'r Amerig. Ei ddyhead pennaf oedd bod yn actor ar lwyfan a gwiredwyd ei freuddwyd yn 1921, pryd y cafodd ran fechan yn *Deburaut*. Profodd *The Rat*, ei ddrama gyntaf (a ffilmwyd wedyn), yn llwyddiant iddo ef fel awdur a chwaraewr. Ysgrifennodd a chymerodd ran mewn llawer o ddramâu eraill cyn troi at gyfansoddi miwsig i gomedïau cerdd, ynghyd ag ysgrifennu'r geiriau i rai ohonynt. Dyma ei weithiau mwyaf poblogaidd, gan ddechrau gyda *Glamorous Night* (1935), a'r seithfed a'r olaf, *King's Rhapsody* (1949) yn goron ar y cyfan. Yr oedd yn ddyn golygus iawn ac wrth ei fodd yn difyrru pobl. Er nad oedd yn actor mawr, cafwyd tystiolaeth ddigamsyniol mai ef a ddenai'r tyrfaoedd pan fyddai'n un o'r chwaraewyr. Gweler Sandy Wilson, *Ivor* (1975), am restr ryfeddol o'i ganeuon, dramâu, ffilmiau a chomedïau cerdd, ei berfformiadau niferus ar lwyfan ac mewn ffilm, a'i waith fel cynhyrchydd a rheolwr; hefyd am gyfeiriadau at fywgraffiadau cynharach. Gosodwyd penddelw ohono yn Theatre Royal, Drury Lane, a chofebau i nodi man ei eni a'i gartref yn Llundain lle y bu farw.

[Nodyn golygyddol 2019: Roedd Ivor Novello yn ddyn hoyw agored, a bu'r actor Robert 'Bobbie' Andrews (1895-1976) yn gymar iddo am 35 mlynedd.]

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Who was who?

W. Macqueen-Pope, *Ivor the story of an achievement. A biography of Ivor Novello* (Caerdydd 1951)

Archifau LIGC: [D. R. Davies Collection of Drama Scrap Books 52: Dramatists and poets](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 20972C: Letters to Ivor Novello from Sir Edward Marsh](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 20973E: Letters to Sir Edward Marsh from Ivor Novello](#)

Paul Webb, *Ivor Novello: a portrait of a star* (London 1999)

Graham Jones, *A portrait of Ivor Novello* (Cardiff 1997)

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Ivor Novello](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [NLW MS 23204D: Ivor Novello papers](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 23696E: Ivor Novello letters](#)

Archifau LIGC: [NLW ex 2404: Papers relating to Ivor Novello](#)

Archifau LIGC: [NLW ex 2980: Ivor Novello and Madame Clara Novello Davies memorabilia](#)

Archifau LIGC: [W. Macqueen-Pope \(Ivor Novello\) Papers](#)

VIAF: [56811010](#)

Wikidata: [Q436693](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

